

Student Academic Reps
Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr

# Llawlyfr Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr '25/26

**Home of the Student Voice**
**Cartref Llais y Myfyrwyr**

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Cynnwys


2. Neges gan eich Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr, a Llywydd eich UM
3. Eich Swyddogion Sabothol
5. Eich Undeb Myfyrwyr
6. Eich Tîm Llais y Myfyrwyr
7. Eich Coleg – Y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol
8. Y Eich Coleg - Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd
9. Eich Coleg - Y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg
10. Rôl Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr
11. Rôl y Cadeirydd
12. Rôl yr Is-gadeirydd
13. Paneli Staff-Myfyrwyr
15. Casglu Adborth
18. Y Ddolen Adborth
19. Fforymau Colegau
20. Cyfleoedd Datblygu
21. Tystysgrifau Cynrychiolwyr
22. Gwobrau Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr
23. Siarter y Myfyrwyr
24. Cyfeirio
27. Taclo'r Termau
29. Llwyddiannau Myfyrwyr
30. Cysylltu â'ch Swyddogion Sabothol


**Home of the Student Voice**
**Cartref Llais y Myfyrwyr**

# Croeso



## Claire Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr

“Fel Dirprwy Is-Ganghellor dros Addysg a Phrofiad Myfyrwyr, rwyf wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth wirioneddol â'n myfyrwyr - gan wrando ar eich lleisiau ac, yn bwysicach fyth, gweithredu arnynt.

Mae Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr yn chwarae rhan hanfodol yn y broses hon. Rydych chi'n un o'r llawer o ffyrdd rydym yn sicrhau bod lleisiau myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cael eu clywed a'u hadlewyrchu ym mhopeth a wnawn - o adborth ar gyrsiau i siapio'r profiad myfyrwyr ehangach.

Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â chynlluniau uchelgeisiol i gynorthwyo â llwyddiant myfyrwyr, ac mae eich rôl chi'n hanfodol wrth sicrhau bod hynny'n digwydd. Trwy ddarparu myfyrwyr â'r wybodaeth ddiweddaraf a gweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr, rydych chi'n ein helpu i wella'r profiad i bawb yng Nghaerdydd.

Croeso i'r tîm - a diolch am y gwaith gwerthfawr rydych chi ar fin cychwyn arno”



## Maria Pollard, Llywydd yr UM

“Llongyfarchiadau ar ddod yn gynrychiolydd myfyrwyr. Rydych chi wedi ymuno â thîm o bobl sy'n ymroddedig i gynrychioli buddiannau corff y myfyrwyr yn y byd academaidd. Er ei fod yn llawer o gyfrifoldeb, cofiwch gadw at gyflymder eich hun a pheidiwch â rhoi gormod o bwysau ar eich hun. Byddwch chi eisiau mynd i gymaint o baneli Myfyrwyr-Staff ag y gallwch, ond peidiwch ag anghofio rhoi sylw i'r hyn sy'n peri pryder i fyfyrwyr. Efallai bod pethau'n cael eu trafod y tu allan i'ch cylch uniongyrchol nad oes gennych chi unrhyw syniad amdanynt, felly cadwch eich meddwl yn agored.

Mae'r rôl hon yn agored i'ch dehongliad chi; chi sy'n penderfynu beth rydych chi'n ei wneud ohoni. Er bod gennych chi gyfrifoldeb i'r myfyrwyr rydych chi'n eu cynrychioli, mae hwn hefyd yn gyfle i chi dyfu'n broffesiynol ac ehangu eich gorwelion.

Byddaf yn edrych ymlaen at weld sut mae pawb yn penderfynu ymgymryd â'r rôl hon. Cofiwch fod eich ffrindiau yn Undeb Myfyrwyr yma bob amser i'ch cefnogi!”



## Sean Strong, IL Myfyrwyr Ôl-raddedig (Addysg a Lles)

"Llongyfarchiadau ar ddod yn Gynrychiolydd Academaidd!
Roedd bod yn Gynrychiolydd yn un o'r rolau mwyaf gwerth-chweil i mi ymgymryd â hi yn ystod rhan gyntaf fy nghwrs PhD.

Dros y flwyddyn nesaf bydd cyfle gennych i gynrychioli eich carfan, darparu adborth hanfodol i'ch ysgol a'ch coleg, a mynd ati i greu newid cadarnhaol. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i rwydweithio a ffurfio cysylltiadau pwysig, dysgu sgiliau trosglwyddadwy newydd, yn ogystal â chreu a siapio profiad myfyrwyr y gallwch fod yn falch ohono.
Rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â chi a gweithio gyda chi trwy gydol y flwyddyn nesaf, a chofiwch fod Undeb y Myfyrwyr bob amser yma i helpu ar hyd y daith. Pob lwc!"



## Joshua Lloyd Tandy, IL Parc y Mynydd Bychan (Addysg a Lles)

"Felicitations! Gobeithio y cewch flwyddyn wych yn eich rôl.
Ni ddylid tanamcangyfrif rôl cynrychiolydd academaidd. Gallwch wneud newid gwirioneddol a gweithredol. Mae cynrychiolaeth myfyrwyr yn un o egwyddorion craidd Undeb Myfyrwyr ac mae'n bwysig iawn wrth sicrhau bod pob myfyriwr yn cael yr amser gorau posibl yn ystod eu profiad prifysgol.

Pan oeddwn i'n fyfyriwr, roeddwn i'n Gadeirydd cynrychiolwyr BIOSI am y 3 blynedd o fy ngradd ac fe wnes i fwynhau fy amser yn y rôl yn fawr. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gwnes gysylltiadau gwych â myfyrwyr a staff, datrys llawer o wahanol faterion o amserlennu a deunyddiau dysgu ar goll i roi adborth ar fodiwlau a gymerwyd ymlaen a'i ddefnyddio i ailstrwythuro'r rhaglenni gradd. Mae hyn yn dangos y gallwch wneud newid gwirioneddol ac yn profi y gallwch chi ei wneud hefyd!

Fy awgrymiadau gorau ar gyfer bod yn gynrychiolydd yw bod yn ddeallus i fyfyrwyr a staff. Chi yw'r bont rhwng y ddau ac mae angen i chi fod yn ymwybodol o safbwyntiau eich gilydd i weithio'n effeithiol. I fod yn agored ac yn hyderus, mae'n eich helpu i gasglu adborth gan fod pobl yn eich gweld fel person y maent yn fodlon siarad ag ef. Yn olaf, byddwch yn gyfathrebwr clir, cadwch bethau'n syml a byr wrth roi adborth i staff neu roi adborth ar newidiadau i fyfyrwyr.

Mae bod yn gynrychiolydd yn dod â gwobrau! Peidiwch ag anghofio dod i ddigwyddiadau cynrychiolwyr a gynhelir drwy gydol y flwyddyn am hwyl ac i gwrdd â phobl newydd. Ni ddylid anghofio'r profiad personol a gewch a'r cysylltiadau a wnewch chwaith, mae cynnydd personol yn un o'r pethau mwyaf gwerthfawr y byddwch chi'n eu cael allan o'r rôl hon ac mae'n wych i'w roi ar CV. Tua diwedd y flwyddyn cynhelir gwobrau cyfoethogi bywyd myfyrwyr ac os ydych chi wedi gwneud gwaith anhygoel efallai y cewch eich enwebu neu hyd yn oed ennill!

I grynhoi, y flwyddyn yw'r hyn rydych chi'n ei gwneud hi. Cynrychiolwch eich cyfoedion, byddwch y newid rydych chi am ei weld a chael hwyl yn ei wneud!"



## Cynwal ap Myrddin, IL y Gymraeg

“Yn gyntaf llongyfarchiadau mawr i chdi ar gael dy benodi’n gynrychiolydd academaidd ar gyfer y flwyddyn hon. Bydd hwn yn brofiad gwerthfawr i chdi, wrth i chdi fod gyda’r gallu i ddylanwadu ar brofiadau myfyrwyr o fewn dy ysgol di, dipyn o gyfrifoldeb!

Ond paid a phoeni, ti bellach yn rhan o gymdeithas fawr o unigolion brwdfrydig sydd eisiau cyd-weithio gyda’i cyd-fyfyrwyr a staff academaidd er mwyn creu newid a fydd o fudd i fyfyrwyr. Cofia dy fod rŵan yn cynrychioli carfan fawr o fyfyrwyr, mae’n allweddol felly dy fod yn lleisio dy farn mewn cyfarfodydd a phaneli Staff-Myfyrwyr er mwyn eu cynrychioloi nhw.

Cofia hefyd os oes gen ti unrhyw gwestiwn ti angen ateb iddo, mae gen ti dim cefnogol yn gefn i chdi yma yn yr Undeb. Pob lwc dros y flwyddyn, gwna dy ora’ a mi fu di’n grêt!”



## Hanan Haliru, IL Myfyrwyr Rhyngwladol (Addysg a Lles)

“Félicitations! Croeso i dîm Cynrychiolwyr Myfyrwyr.

Byddwch chi a channoedd o fyfyrwyr eraill yn gweithio gyda’ch gilydd i weithredu fel y bont rhwng corff ehangach y myfyrwyr a’r Brifysgol. Gallwch lunio profiad y myfyrwyr yn uniongyrchol.

Mae hwn yn gyfle gwerthfawr i fod yn llais i chi a’ch cyfoedion yn ogystal ag ymhelaethu ar eu hanghenion. Mae llawer o gyfrifoldeb yn dod gyda’r pŵer hwn!

Peidiwch â phoeni gormod amdano, oherwydd bydd pob un ohonom yn Undeb y Myfyrwyr yn falch o’ch cefnogi ar eich taith drwy’r rôl hon. Peidiwch ag oedi cyn dod atom ni am gwestiynau.

Y rôl hon yw’r hyn rydych chi’n ei wneud ohoni mewn gwirionedd. Ymgysylltwch â phaneli Myfyrwyr-Staff gymaint â phosibl, gwrandewch ar yr adborth gan eich cyfoedion, a byddwch yn feiddgar wrth arwain ymgyrchoedd rydych chi’n angerddol amdanynt ac yn meddwl y byddant o fudd i fyfyrwyr. Mae hwn yn gyfle nid yn unig i ddatblygu profiad y myfyrwyr, ond i ddatblygu eich hun a’ch sgiliau hefyd.

Rwy’n edrych ymlaen at weld beth fyddwch chi’n ei wneud y flwyddyn academaidd hon. Pob lwc i chi gyd am y flwyddyn i ddod. Hwyl!

# Eich Undeb Myfyrwyr



Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdyddyn cael ei gydnabod fel Undeb Myfyrwyr blaenllaw ac yn rhan annatod o Brifysgol Caerdydd. Ein nod yw bod wrth galon profiad myfyrwyr Caerdydd trwy weithio gyda phob myfyriwr i wella eu profiad prifysgol. Oeddech chi'n gwybod eich bod yn dod yn aelod o Undeb y Myfyrwyr yn syth ar ôl ymrestru ym Mhrifysgol Caerdydd?

## Ein Diben

Hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ystod eu cwrs drwy gynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr.

Bod yn sianel gynrychioliadol gydnabyddedig rhwng myfyrwyr, Prifysgol Caerdydd, ac unrhyw gyrff allanol eraill.

Darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon, a hamdden, a fforymau ar gyfer trafodaethau a dadlau ar gyfer datblygiad personol myfyrwyr.

## Mae Gennym 4 Thema Strategol

- Eich cymuned yng Nghaerdydd
- Eich bywyd academaidd
- Eich profiadau myfyriwr
- Eich lles a'ch dyfodol

## Rydym Hefyd yn Hyrwyddo 4 Gwerth

**Arweinyddiaeth Myfyrwyr** – Rydym yn darparu hyfforddiant, cymorth ac arweiniad i'ch helpu i gymryd yr awenau wrth wneud newidiadau cadarnhaol i'ch cwrs a'ch profiad academaidd ehangach.

**Cynhwysiant** - Fel cynrychiolydd academaidd, mae'n bwysig eich bod yn ymdrechu i ymgysylltu â phob myfyriwr ar eich cwrs a'u cynrychioli.

**Partneriaeth** - Mae'r Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth i wneud y profiad addysgol gorau y gall fod i fyfyrwyr.

**Amrywiaeth** – Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ymhlith Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr, ac rydym am weithio gyda chi i ddileu rhwystrau i addysg.

Mae Tîm Llais y Myfyrwyr yn rheoli'r strwythur Cynrychiolaeth Academaidd mewn partneriaeth â'r Brifysgol, ac yn gweithio i gefnogi a grymuso myfyrwyr sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cynrychiolaeth myfyrwyr ar bob lefel o wneud penderfyniadau. Mae'r Swyddogion Sabothol etholedig yn dibynnu ar yr adborth a ddarperir gan bob Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr i sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir er lles myfyrwyr.

# Eich Tîm Llais y Myfyrwyr

Llongyfarchiadau ar ddod yn Gynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr! Undeb y Myfyrwyr yw cartref llais y myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'r Undeb yma i gynrychioli eich diddordebau academaidd. Ers 2014 mae Tîm Llais y Myfyrwyr yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd wedi rheoli'r strwythur Cynrychiolaeth Academaidd Myfyrwyr mewn cydweithrediad â'r Brifysgol.

Fel tîm, rydym yn ymdrin ag ystod eang o feysydd, o gynrychiolaeth academaidd a pholisi i ddemocratiaeth ac ymgyrchoedd. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd i eirioli llais y myfyrwyr ar bob lefel a rhoi cyfle i fyfyrwyr fod yn gyd-grewyr eu profiad prifysgol.

Rydyn ni'n creu'r hyfforddiant a ddarperir i chi fel Cynrychiolydd, a bob blwyddyn rydym yn ailymweld â'r hyfforddiant ac yn ei adolygu yn seiliedig ar eich adborth. Drwy gydol y flwyddyn, byddwch yn derbyn cylchlythyr gennym unwaith y mis yn amlinellu gwybodaeth allweddol a digwyddiadau sy'n bwysig i chi. Dywedwch wrthym beth rydych chi'n ei wneud fel y gallwn ei gynnwys yn ein cylchlythyr neu yn ein hymgyrch Llwyddiannau Myfyrwyr!

Rydym wedi ein lleoli ar 3ydd llawr Undeb y Myfyrwyr ar Blas y Parc, ac yn y Lolfa IV ym Mharc y Mynydd Bychan, felly dewch i'n gweld unrhyw bryd! Rydyn ni eisiau clywed gennych chi, unrhyw broblemau sy'n codi, neu unrhyw syniadau gwych sydd gennych chi. Gallwch chi alw i mewn, neu cysylltwch â ni yma:

## Tîm Llais y Myfyrwyr

studentreps@cardiff.ac.uk

02920 781 448

**@CardiffStudentVoice**

**@CSUStudentVoice**

# Eich Coleg:
## Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol (AHSS)

### Mae Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol yn cynnwys 10 ysgol:

- Ysgol Busnes Caerdydd (CARBS)
- Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth (ENCAP)
- Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio (GEOPL) Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd (SHARE)
- Ysgol Newyddiaduraeth, Cyfryngau a Diwylliant (JOMEC)
- Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth (LAWPL)
- Ysgol Ieithoedd Modern (MLANG)
- Ysgol Cerddoriaeth (MUSIC)
- Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol (SOCSI)
- Ysgol y Gymraeg (CYMRAEG)

Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol yw'r coleg mwyaf ym Mhrifysgol Caerdydd gyda dros 12,000 o fyfyrwyr. Mae'r ysgolion yn AHSS wedi'u lleoli'n bennaf yn Cathays.

Yn 2024/25, roedd 419 o gynrychiolwyr ar draws y coleg, yn gweithio yn eu hysgolion i wella profiad myfyrwyr.

## Deon y coleg yw:
## Dr Rob Gossedge

# Eich Coleg:
## y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd (BLS)

**Mae Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd yn cynnwys 7 ysgol academaidd:**

- Ysgol y Biowyddorau (BIOSI)
- Ysgol Deintyddiaeth (DENTL)
- Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd (HCARE)
- Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg (OPTOM)
- Ysgol Feddygaeth (MEDIC)
- Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol (PHRMY)
- Ysgol Seicoleg (PSYCH)

Mae Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd yn goleg sy'n ymestyn ar draws dau gampws. Gyda'r Ysgolion Gwyddorau Gofal Iechyd, Deintyddiaeth a Meddygaeth wedi'u lleoli ar gampws Parc y Mynydd Bychan, mae llais y myfyrwyr yn cael ei drosglwyddo ar draws Caerdydd. Mae Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr ym mhob ysgol yn gweithio'n galed i godi adborth ar addysgu clinigol, amserlennu, lleoliadau gwaith a mwy.

Yn 2024/25, roedd 244 o gynrychiolwyr ar draws y coleg, gyda phob un yn cyfrannu at newidiadau allweddol i holl fyfyrwyr y coleg.

## Deon y coleg yw:

## Dr Amanda Tonks

# Eich Coleg:
## y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg (PSE)

**Mae coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg yn cynnwys 7 ysgol academaidd:**

- Ysgol Pensaernïaeth (ARCHI)
- Ysgol Cemeg (CHEMY)
- Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg (COMSC)
- Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr (EARTH)
- Ysgol Peirianneg (ENGIN)
- Ysgol Mathemateg (MATHS)
- Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth (PHYSX)

Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg yw'r coleg lleiaf yn y brifysgol, gyda thua 6500 o fyfyrwyr. Mae'r holl ysgolion wedi'u lleoli yn Cathays.

Yn 2024/25, roedd 296 o gynrychiolwyr ar draws y coleg, sydd wedi bod yn allweddol wrth wneud newidiadau i brofiad myfyrwyr.

## Deon y coleg yw:
## Dr Martin Chorley

# Rôl Cynrychiolydd Academaidd y Myfyrwyr

## Amcan y Rôl:

Mae Cynrychiolwyr Academaidd Israddedig, Ôl-raddedig wedi'i Addysgu ac Ôl-raddedig Ymchwil yn cynrychioli buddiannau academaidd y myfyrwyr ar eu cwrs, gan gasglu adborth i'w drafod gyda staff yr ysgol a bod yn rhan o wella unrhyw faterion sy'n seiliedig ar y cwrs.

## Cyfrifoldebau:

- Mynychu hyfforddiant gydag Undeb y Myfyrwyr
- Mynychu gweithdy eich ysgol
- Mynychu Paneli Staff-Myfyrwyr (PSMau)
- Hyrwyddo eich rôl ymhlith eich cyfoedion
- Casglu adborth cadarnhaol ac adeiladol gan fyfyrwyr eraill i rannu ag aelodau o staff perthnasol
- Cydweithio â staff i wneud newidiadau cadarnhaol i'ch cwrs
- Cau'r ddolen adborth drwy adrodd yn ôl i fyfyrwyr am unrhyw ddiweddariadau
- Cyfeirio myfyrwyr at wasanaethau defnyddiol y brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr
- Gweithio gyda'ch Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr ar ymgyrchoedd
- Ymgysylltu â gweithgareddau Undeb y Myfyrwyr dros y flwyddyn



# Rôl y Cadeirydd

Mae Paneli Staff-Myfyrwyr (PSMau) yn gyfarfodydd wedi'u harwain gan fyfyrwyr rhwng staff a myfyrwyr gyda'r pwrpas o drafod adborth myfyrwyr. Mae Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn cael eu hethol o'r Cynrychiolwyr Academaidd.

Os oes gennych ddiddordeb bod yn Gadeirydd neu'n Is-Gadeirydd, cysylltwch â Chydlynydd Cynrychiolwyr Academaidd (CCA) eich ysgol.

## Amcan y Rôl:

Gweithio'n agos gyda'r Is-Gadeirydd a'r CCA i sicrhau bod y PSMau yn drefnus ac yn effeithiol, a bod yn gyswllt allweddol ar gyfer y panel yn eich ysgol.

## Cyfrifoldebau:

- Cadeirio Paneli Staff-Myfyrwyr
- Rheoli'r drafodaeth yn Paneli Staff-Myfyrwyr
- Penodi camau gweithredu yn y Paneli Staff-Myfyrwyr
- Cadw amser yn y Paneli Staff-Myfyrwyr
- Gosod y dyddiad ar gyfer y Paneli Staff-Myfyrwyr, a chadarnhau'r agenda ymlaen llaw
- Gweithio gyda'r Is-Gadeirydd i wahodd staff a myfyrwyr perthnasol i'r paneli
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Is-Gadeirydd a'r Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr
- Hyrwyddo ymddygiad proffesiynol yn y Paneli Staff-Myfyrwyr
- Mynychu Fforymau Coleg gyda Deoniaid y Colegau

# Rôl yr Is-Gadeirydd

**Amcan y Rôl:**

Gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd a'r CCA i sicrhau bod y PSMau yn drefnus ac yn effeithiol. Cefnogi'r Cadeirydd yn ei rôl a bod yn Gadeirydd dros dro yn achos absenoldeb y Cadeirydd.

**Cyfrifoldebau:**

- Cefnogi'r Cadeirydd i reoli'r drafodaeth mewn Paneli Staff-Myfyrwyr
- Cymryd rôl a dyletswyddau'r Cadeirydd os bydd yn absennol o'r Paneli Staff-Myfyrwyr
- Cadarnhau camau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd.
- Cefnogi'r Cadeirydd i osod y dyddiad ar gyfer y Paneli Staff-Myfyrwyr, a chadarnhau'r agenda ymlaen llaw
- Gweithio gyda'r Cadeirydd i wahodd staff a myfyrwyr perthnasol i'r paneli
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Cadeirydd a'r Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr
- Hyrwyddo ymddygiad proffesiynol yn y Paneli Staff-Myfyrwyr
- Mynychu Fforymau Coleg gyda Deoniaid y Colegau, lle bo'n briodol

# Paneli Staff Myfyrwyr

Paneli Staff Myfyrwyr (PSMau) yw'r cyfarfodydd allweddol a fynychir gan Gynrychiolwyr Academaidd y Myfyrwyr a staff eich ysgol. Diben y cyfarfodydd hyn yw siarad am syniadau a meysydd i'w gwella ar eich cwrs a'ch profiad addysgol yn gyffredinol. Disgwylir i chi fynychu'r cyfarfodydd hyn gydag adborth gan eich carfan. Bydd dau gynrychiolydd (Cadeirydd ac Is-Gadeirydd) yn gyfrifol am gadeirio'r cyfarfod a bydd aelod o staff yr ysgol yn gyfrifol am gymryd cofnodion.

## Beth allaf ei ddisgwyl gan Banel Staff Myfyrwyr?

Eich Paneli Staff Myfyrwyr fydd y prif gyfle i chi roi adborth i staff perthnasol. Mae'n hanfodol eich bod yn paratoi ar gyfer y cyfarfod drwy gasglu adborth gan eich cyfoedion ymlaen llaw, a thrwy ddarllen drwy unrhyw ddogfennau a anfonir atoch. Os neilltuwyd gweithred i chi mewn cyfarfod blaenorol, gwnewch yn siŵr bod gennych ddiweddariad i'w roi i'r holl staff a myfyrwyr.

## Pwy fydd yno?

**Aelodaeth y myfyrwyr:**

- Cadeirydd ac Is-Gadeirydd etholedig
- Cynrychiolwyr Academaidd y Myfyrwyr
- Aelod pwyllgor o'r gymdeithas academaidd berthnasol (lle bo'n berthnasol)

**Aelodaeth y Staff:**

- Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr
- Staff ysgol priodol
- Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu
- Llyfrgellwyr pwnc

Os oes gennych rywbeth penodol yr hoffech ei drafod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn iddo gael ei ychwanegu at yr agenda ymlaen llaw. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Cadeirydd neu'r Cydlynydd Cynrychiolwyr y Myfyrwyr wahodd unrhyw aelodau staff angenrheidiol pellach i fynychu.

## Pa mor aml yw'r Paneli Staff Myfyrwyr?

Dylai eich Paneli Staff Myfyrwyr gyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn – unwaith y tymor. Fel Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr, disgwylir i chi fynd i bob Panel Staff Myfyrwyr. Os na allwch fod yn bresennol, rhaid i chi anfon ymddiheuriadau (a diweddariad ar unrhyw adborth a gawsoch) at y panel ymlaen llaw. Mae pob ysgol yn wahanol, felly efallai y cewch eich gwahodd i fwy o Baneli Staff Myfyrwyr yn ystod y flwyddyn. Mae'n bwysig eich bod yn cynnal presenoldeb da a siarad â'ch Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr os ydych yn cael trafferth.

Sylwch, os nad ydych yn mynychu Paneli Staff Myfyrwyr ac nad ydych yn anfon ymddiheuriadau, efallai y cewch eich tynnu o'ch rôl.

## Oes gennych chi syniad neu fater cyn eich Panel Staff Myfyrwyr?

Ni all rhai materion aros tan Banel Staff Myfyrwyr. Os oes mater brys, mae'n werth ei godi gydag aelod o staff cyn y cyfarfod. Os oes angen cymorth arnoch i wneud hynny, cysylltwch â **StudentReps@Caerdydd.ac.uk.**



# Casglu Adborth

Mae casglu adborth gan fyfyrwyr yn rhan allweddol o rôl Cynrychiolydd Academaidd. Mae'n bwysig cofio cysylltu â phob myfyriwr wrth gasglu adborth, a gallwch wneud hyn yn y modd sydd mwyaf cyfforddus i chi. Byddwch yn ystyriol o wneud eich cyfathrebu yn hygyrch ar gyfer yr holl fyfyrwyr - bydd rhagor o wybodaeth ar gyfathrebu yn cael ei rhannu yn yr hyfforddiant CAM.

Dyma rhai esiamplau o dechnegau casglu adborth, a manteision ac anfanteision y dulliau yma.

## Wyneb yn wyneb

**Manteision:**

- Mae rhai pobl yn fwy cyfforddus wrth gyfathrebu wyneb yn wyneb
- Mae adborth yn aml yn trosi'n well ar lafar
- Gall fod yn haws dechrau sgwrs yn naturiol

**Anfanteision:**

- Gall fod yn anodd cael tystiolaeth o faterion yn ysgrifenedig
- Gall fod yn anodd cael pawb ynghyd i ofyn am adborth

## E-bost

**Manteision:**

- Dylai pawb gael mynediad i'w e-bost prifysgol
- Mae'n cadw'r broses yn broffesiynol

**Anfanteision:**

- Efallai nad yw myfyrwyr yn gwirio eu e-byst yn reolaidd
- Gall fod pryderon fod e-byst yn cael eu monitro - sy'n arwain at amharodrwydd i gynnig adborth
- Gall cadwyni e-bost hir fod yn anhrefnus ac aneffeithiol

## Cyfryngau Cymdeithasol

**Manteision:**

- Mae llawer o bobl yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth ddefnyddio adnoddau anffurfiol
- Gallwch chi weld pan mae pobl wedi gweld neges
- Gallwch greu grwpiau, poliau a danfon negeseuon breifat

**Anfanteision:**

- Mae rhai platfformau cyfryngau cymdeithasol wedi'u gwahardd mewn rhai gwledydd
- Efallai y byddai'n well gan fyfyrwyr gadw eu bywydau personol a phroffesiynol ar wahân
- Mae'n annog myfyrwyr i ymateb y tu allan i oriau arferol

## WhatsApp

**Manteision:**

- Bydd llawer o bobl yn barod yn defnyddio WhatsApp gan ei fod ar gael yn rhwydd
- Mae'n dda ar gyfer annog ymatebion a thrafodaethau cyflym

**Anfanteision:**

- Nid yw'r ap ar gael ym mhob gwlad
- Efallai na fydd myfyrwyr eisiau pawb i gael mynediad at eu rhif ffôn
- Mae'n annog myfyrwyr i ymateb y tu allan i oriau arferol

## Cyfarfodydd Ar-lein

**Manteision:**

- Yn caniatáu trafodaeth hawdd hyd yn oed pan na all pobl fod yn yr un lle
- Yn caniatáu ar gyfer trafodaeth mwy rhyngweithiol
- Mae'r blwch sgwrsio yn annog pobl i ychwanegu sylwadau at y drafodaeth

**Anfanteision:**

- Gall fod yn anodd dod o hyd i amser addas pan mae gan bobl amserlenni gwahanol
- Gall rhai myfyrwyr ddominyddu'r drafodaeth

## Mentimeter

**Manteision:**

- Ffordd hawdd o gasglu adborth yn gyflym
- Rhyngweithiol ac uniongyrchol
- Gall pobl bostio adborth yn ddienw


**Anfanteision:**

- Byddai dal angen i chi ddosbarthu'r cod i gael mynediad at yr arolwg/pôl
- Mae'n well ei ddefnyddio ar y cyd gyda chyfarfodydd ar-lein neu'n debyg



# Y Ddolen Adborth

Dyma'r Ddolen Adborth, sy'n dangos sut mae adborth yn cael ei godi a'i adolygu trwy'r system Cynrychiolaeth Academaidd Myfyrwyr (CAM). Mae'r ddolen adborth yn ffurfio proses parhaol y mae CAM a staff Prifysgol yn ei ddilyn yn ystod y flwyddyn academaidd.




Mae cwblhau'r ddolen adborth yn bwysig iawn er mwyn i fyfyrwyr cael gweld y newidiadau a phenderfyniadau sy'n digwydd o fewn eu cyrsiau o ganlyniad i rannu eu syniadau a safbwynt gyda SARs & staff Prifysgol. Dylai CAM a staff Prifysgol weithio gyda'i gilydd i ddiweddaru myfyrwyr am unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud o ganlyniad i adborth myfyrwyr. Gall myfyrwyr wedyn darparu sylwadau am y camau/penderfyniadau yma i'r CAM ac mae hyn yn galluogi'r ddolen adborth i barhau.

Mae'r ddolen adborth yn helpu cadw myfyrwyr yn wybodus am ganlyniadau eu hadborth a'r camau/penderfyniadau sy'n cael eu cymryd o ganlyniad.

# Fforymau Colegau

Os oes materion sydd wedi codi yn ystod Paneli Staff Myfyrwyr na ellir eu datrys o fewn yr ysgol, gellir dod â'r rhain i'r Fforwm Coleg. Gallai hyn gynnwys problemau gydag adnoddau TG neu lyfrgell. Mae Fforymau Colegau hefyd yn gyfle gwych i roi trosolwg i Ddeoniaid y Colegau o ba eitemau a drafodwyd yn eich Paneli Staff Myfyrwyr

Mae pob Fforwm Coleg yn rhedeg mewn ffordd ychydig yn wahanol i weddu i anghenion y Coleg yn well.

Cadeirir Fforymau Colegau gan Swyddog etholedig Undeb y Myfyrwyr – IL Israddedigion, IL Ôl-raddedigion, IL Parc y Mynydd Bychan ac IL y Gymraeg. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu sefydlu a'u hwyluso gan Dîm Llais y Myfyrwyr, a bydd Cynorthwyydd Llais y Myfyrwyr yn cymryd cofnodion i'w cyhoeddi ar wefan Undeb y Myfyrwyr. Byddwch yn cael eich gwahodd i roi diweddariad byr am y prif eitemau yr ydych wedi'u trafod yn eich Panel Staff Myfyrwyr, a gofyn am gyngor lle bo angen ar unrhyw bryderon parhaus.

## Mae aelodaeth Fforymau'r Coleg yn cynnwys:

- Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr (Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion)
- IL Myfyrwyr Rhyngwladol (Addysg a Lles)
- IL Parc y Mynydd Bychan (Fforwm Coleg BLS yn unig)
- IL y Gymraeg
- IL Myfyrwyr Ôl-raddedig (Addysg a Lles)
- Deoniaid y Coleg (Israddedig ac Ôl-raddedig)
- Rheolwr Addysg y Coleg
- Rhag Is-ganghellor, Profiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd
- Cynrychiolwyr Llyfrgelloedd
- Cynrychiolwyr TG

# Cyfleoedd Datblygu

As Fel Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr, byddwch yn cael y cyfle i ymwneud â nifer o weithgareddau eraill Undeb y Myfyrwyr. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gyfleoedd pellach trwy ein cylchlythyrau misol!

- System haenu Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth Cynrychiolwyr – byddwch y cynrychiolydd gorau y gallwch fod drwy weithio tuag at efydd, arian neu aur.
- Dewch yn Hyrwyddwr Lles – os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn Hyrwyddwr Lles, cysylltwch â ni. Gallwn roi mwy o wybodaeth i chi am sut y gallwch gefnogi myfyrwyr i lwyddo yn eu profiadau academaidd.
- Pwyllgorau Gweithredol Swyddogion Sabothol – byddwch rhan o Bwyllgor Gweithredol a gweithio gyda'r Swyddogion etholedig ar eu hymgyrchoedd, eu syniadau a'u hawgrymiadau ar gyfer gwella.
- Sesiynau Arweinwyr Myfyrwyr - ymgysylltwch â'n sesiynau trwy gydol y flwyddyn i ddatblygu sgiliau, adeiladu gwybodaeth, a rhwydweithio gyda Chynrychiolwyr eraill.
- Cylchlythyr Misol Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr - byddwch yn derbyn cylchlythyr misol y benodol ar gyfer Cynrychiolwyr sy'n cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd datblygu a digwyddiadau i gymryd rhan ynddynt.
- Byddwch yn arloeswr ar gyfer prosiect ysgol – mae cynrychiolwyr y blynyddoedd blaenorol wedi arwain eu sesiynau adeiladu tîm eu hunain, wedi cynnal digwyddiadau cymdeithasol, ac wedi gweithio ar brosiectau yn seiliedig ar adborth myfyrwyr yn eu hysgol. Cysylltwch â Thîm Llais y Myfyrwyr neu Swyddogion etholedig os oes gennych ddiddordeb mewn arloesi gyda phrosiect eich hun!

# Tystysgrifau Cynrychiolwyr

Gall bod yn Gynrychiolydd fod yn hynod werth chweil ynddo'i hun, ond rydym hefyd yn cydnabod y gwaith caled, yr amser a'r ymdrech sy'n mynd i fod yn Gynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr. Rydym wedi cyflwyno system bwyntiau sy'n cydnabod y gwaith rydych chi'n ei wneud, ac sy'n cael ei defnyddio i gyfrifo'r dystysgrif byddwch yn ei derbyn ar ddiwedd y flwyddyn academaidd (efydd, arian, aur). Gallwch ennill pwyntiau fel a ganlyn

| **Gweithgaredd** | **Pwyntiau** |
|---|---|
| Mynychu Hyfforddiant | 10 pwynt |
| Mynychu Panel Staff Myfyrwyr | 5 pwynt ar gyfer pob un o'r 3 SSP sy'n ofynnol |
| Cadeirio / Is-Gadeirio Panel Staff Myfyrwyr | 3 pwynt |
| Mynychu Fforwm Coleg | 3 pwynt |
| Mynychu CCB yr Undeb | 3 pwynt |
| Mynychu Sesiynau Arweinwyr Myfyrwyr | 2 pwynt |
| Cwblhau Arolwg Cynrychiolwyr diwedd blwyddyn | 2 pwynt |
| Derbyn enwebiad ESLA | 2 pwynt |
| Gwneud enwebiad ESLA | 1 pwynt |
| Ymgysylltu â'ch cymdeithas sy'n gysylltiedig â chwrs | 1 pwynt |

Er mwyn derbyn eich tystysgrif cynrychiolydd, bydd angen i chi lenwi ein Harolwg Cynrychiolwyr ar ddiwedd y flwyddyn ym mis Mai, a chwblhau Hyfforddiant Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr fel y gallwn gyfrifo eich pwyntiau. Cadwch lygad ar ein cylchlythyrau cynrychiolwyr misol am ragor o wybodaeth.



# Gwobrau Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr

Mae Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr (CAMau) yn gwirfoddoli eu hamser i gynrychioli lleisiau myfyrwyr ar draws eu cwrs a'r Brifysgol. Gall y rôl yma fod hynod gwerth chweil yn ei hun, ac mae'n gyfle gwych i dyfu'ch sgiliau cyfathrebu a chydweithio. Ond rydym hefyd am gydnabod y gwaith caled ac amser y mae SARs yn eu hymroi i'r rôl, sef pam gwnaethom gyflwyno system Gwobrau Cynrychiolwyr newydd y llynedd.

Mae'r system wobrwyo yn eich galluogi i gyfnewid Pwyntiau Cynrychiolwyr byddwch yn eu casglu trwy fynychu gwahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ystod y flwyddyn academaidd (gweler tudalen 18 am fanylion pellach am y pwyntiau gallwch eu hennill).

Gallwch gyfnewid eich Pwyntiau Cynrychiolwyr am wobrau ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

## Roedd rhai o'r gwobrau a hawliwyd y llynedd yn cynnwys:

- Potel dŵr Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr
- Mwg Caru Caerdydd gyda logo Prifysgol Caerdydd
- Llyfr nodiadau Caru Caerdydd gyda logo Prifysgol Caerdydd

Rennir mwy o wybodaeth am wobrau ar gyfer y flwyddyn academaidd 24-25 yng nghylchlythyr semester dau









# Siarter y Myfyrwyr

Mae Siarter y Myfyrwyr yn diffinio rolau a chyfrifoldebau myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol. Mae ein Siarter Myfyrwyr yn rhoi gwybod i chi beth allwch chi ei ddisgwyl gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr a beth ydym ni'n ei ddisgwyl gennych chi.

Fel Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr, mae'n bwysig eich bod yn gwybod y disgwyliadau hyn a'r hyn y gall myfyrwyr ei wneud os nad yw'r Brifysgol yn cwrdd â'ch disgwyliadau.

Darllenwch ein Siarter Myfyrwyr:
[cardiff.ac.uk/new-students/before-you-arrive/student-charter.](cardiff.ac.uk/new-students/before-you-arrive/student-charter)

- Amlygu problemau yn gynnar a cheisio cyngor os na chaiff y rhain eu datrys
- Hysbyswch y Brifysgol yn brydlon am unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau
- Codwch eich pryderon os yw ymddygiad cyd-fyfyrwyr neu staff yn effeithio'n andwyol ar eich profiad yng Nghaerdydd
- Ceisiwch gyngor yn syth os yw eich cynnydd academaidd, neu unrhyw agwedd arall ar eich profiad yng Nghaerdydd, yn peri pryder i chi.



# Cyfeirio

Fel Cynrychiolydd Academaidd mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r gwahanol wasanaethau ar draws y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr er mwyn i chi allu cyfeirio myfyrwyr at y cysylltiadau priodol pe baent yn cysylltu â chi gyda mater sydd y tu allan i gasglu ac adrodd adborth.

Yn eich rôl fel Cynrychiolydd Academaidd, **NID** oes disgwyl i chi ddelio â:

- Anghydfodau rhwng myfyrwyr a staff academaidd (e.e. aflonyddu, gwahaniaethu)
- Gweithdrefnau ffurfiol, (e.e. methiannau arholiadau, apeliadau academaidd, cymhwysedd i ymarfer, amgylchiadau esgusodol)
- Ymholiadau ariannol, cyllido
- Problemau lles, materion iechyd a phersonol (e.e. tai, cyflogaeth a mewnfudo.)

Os bydd myfyriwr yn dod atoch gyda phroblem, ac rydych yn ansicr i ble y dylid ei gyfeirio, cysylltwch â **studentreps@caerdydd.ac.uk**

Isod mae rhai o'r gwasanaethau a phobl allweddol i fod yn ymwybodol ohonynt:

**Isod mae rhai o'r gwasanaethau a phobl allweddol i fod yn ymwybodol ohonynt:**

## Gwasanaethau Undeb y Myfyrwyr

### Cyngor i Fyfyrwyr

Mae'r tîm Cyngor i Fyfyrwyr yn darparu cyngor a gwybodaeth annibynnol, eiriolaeth, cynrychiolaeth a chefnogaeth drwy wasanaeth cyfrinachol, diduedd, annibynnol ac am ddim i aelodau Undeb y Myfyrwyr. Dewch i 3ydd Llawr Undeb y Myfyrwyr i, drefnu apwyntiad, neu ebostiwch neu ffoniwch y tîm. Os bydd myfyriwr yn dod atoch gydag unrhyw un o'r materion hyn, cyfeiriwch nhw at Cyngor i Fyfyrwyr

- Materion Academaidd – apeliadau, cyngor ar ymddygiad myfyrwyr, newidiadau i'ch cwrs/telerau ac amodau, amgylchiadau esgusodol, adolygu trwy Ramadan, Cymorth Adolygu, Arfer Annheg, Addasrwydd i Ymarfer.
- Iechyd a Lles – iechyd meddwl, iechyd rhywiol
- Tai – gwirio cytundebau tai, anghydfodau gyda landlordiaid, rhestriadau tai ac ati.

### Angen Cyngor?

Advice@Cardiff.ac.uk

029 2078 1410

**cardiffstudents.com/advice**

## Cyngor Brys

Os ydych mewn sefyllfa sy'n cynnwys perygl, bwriad hunanladdol, arfau, bygythiad niwed, niwed ffisegol, marwolaeth neu derfysgaeth ac angen cymorth brys ffoniwch **999** ac wedyn rhowch wybod i'r Tîm Diogelwch trwy ffonio **+44 (0)29 2087 4444.**

Gallwch hefyd gwblhau ffurflen gyfeirio'r Tîm Ymyrraeth Myfyrwyr ar y fewnrwyd os yw'r sefyllfa'n cynnwys: risg i'ch hun neu eraill, ymddygiad ansefydlog, newidiadau mewn ymddygiad, ymddieithrio, neu unigolyn coll. Bydd Tîm Ymyrraeth Myfyrwyr y Brifysgol yn ymateb i'ch pryderon, ac yn ateb eich ymholiad o fewn un diwrnod lle'n bosibl, rhwng **10:00 a 16:00** dydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc) yn ystod tymhorau'r brifysgol yn unig.

Am gefnogaeth **24/7** gan GIG Cymru, ffoniwch **111** neu ewch i GIG 111 Cymru

**Am gymorth 24/7 gan GIG Cymru, ffoniwch 111 neu ewch i GIG 111 Cymru.**

**Mae cymorth Iechyd Meddwl 24/7 GIG ar gael drwy ffonio 111 a phwyso Opsiwn 2.**

**Cliciwch yma am mwy o gyngor brys ar gyfer sefyllfaoedd penodol.**

## Siopswyddi

Mae'r Siop Swyddi yn wasanaeth cyflogaeth am ddim i fyfyrwyr sy'n ceisio dod o hyd i gyflogaeth achlysurol ar gyfer myfyrwyr cofrestredig Prifysgol Caerdydd. Mae cyfleoedd ar gael o fewn y Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr a gyda chyflogwyr lleol. Maent wedi'u lleoli ar 3ydd llawr adeilad Undeb y Myfyrwyr.

**Jobshop@caerdydd.ac.uk**

**02920 781535**

**cardiffstudents.com/jobshop**

# Timau Cymorth Prifysgol Caerdydd

## Cyswllt Myfyrwyr

Cyswllt Myfyrwyr yw eich pwynt cyswllt cyntaf os oes angen unrhyw gymorth arnoch wrth astudio ym Mhrifysgol Caerdydd. Gall y tîm ateb eich ymholiadau, dosbarthu neu eich cyfeirio at ein timau Bywyd Myfyrwyr neu adnoddau eraill perthnasol pe bai angen.

Am wybodaeth am brosesau'r Brifysgol, help i gael mynediad at gymorth neu am unrhyw ymholiad, cysylltwch â Chyswllt Myfyrwyr.

I gysylltu â Chyswllt Myfyrwyr gallech:

- ymweld â thîm Cyswllt Myfyrwyr wyneb-yn-wyneb, ar lawr waelod Canolfan Bywyd y Myfyrwyr
- ddefnyddio ein porth Cyswllt Myfyrwyr ar-lein ein ffonio ni ar **+44 (0)29 2251 8888**

**Mae Cynghorwyr Cyswllt Myfyrwyr ar gael rhwng 08:00 –18:00, ddydd Llun i ddydd Gwener.**

## Cyngor ac Arian

Cyngor ar faterion academaidd, cyngor cyllido, sgiliau ariannol & chronfeydd argyfwng a bwrsarïau & ysgoloriaethau.

## Dyfodol Myfyrwyr

Cyngor gyrfaol a gwybodaeth, profiad gwaith, cyfleoedd, symudedd rhyngwladol (astudio, gweithio neu wirfoddoli tramor) menter myfyrwyr a chymorth dechrau busnes, Gwobr Caerdydd ac amrywiaeth o weithdai sgiliau a nodweddion cyflogadwyedd.

- Ymwelwch â thîm Dyfodol Myfyrwyr wyneb-yn-wyneb, ar lawr cyntaf Canolfan Bywyd y Myfyrwyr.

## Iechyd a Lles

Cyngor ymarferol a chymorth am iechyd a lles da, sydd hefyd yn cynnig apwyntiadau ar-lein & wyneb-yn-wyneb, gwasanaeth galw heibio, gweithdai, adnoddau hunangymorth, cyngor brys a gwasanaeth iechyd galwedigaethol.

## Gwasanaeth Anabledd Myfyrwyr

Cymorth a chyngor i fyfyrwyr ag an-ableddau, gwasanaethau cymorth arbenigol, hwyluso hygyrchedd ac addasiadau gan gynnwys addasia-dau i arholiadau.

## Sgiliau Astudio Academaidd

Cynnig amrywiaeth eang o ddosbarthiadau sy'n ymdrin â phynciau fel cyfeirio mewn traethawd, sgiliau cyflwyno ac ysgrifennu traethodau, tiwtorialau ar-lein ac adnoddau, awgrymiadau a chymorth unigol.

## Cymorth Fisa i Fyfyrwyr

Cymorth ymarferol i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n cynnig cyngor ynghylch mewnfudo & chymorth gyda cheisiadau i ymestyn fisas, canllawiau ar reoliadau cyflogaeth, cyngor ariannol a gwybodaeth am fywyd bob dydd yn y DU.

**Peidiwch ag anghofio cadw llygad ar ddigwyddiadau a gweithdai defnyddiol ar-lein ac wyneb-yn-wyneb sy'n ymdrin â phob math o destunau trwy gydol y flwyddyn.**



# Taclo'r Termau!

## Byrddau Astudio

Cyfarfodydd ffurfiol sy'n dod â Phenaethiaid Ysgolion ynghyd ag aelodau staff priodol i drafod materion gweinyddol ac academaidd sy'n ymwneud â rhaglenni a ddarperir yn yr Ysgol.

## Swyddogion Ymgyrchu

Grŵp o 11 o fyfyrwyr sy'n cael eu hethol bob blwyddyn i gynrychioli grwpiau rhyddfrydol. Swyddi gwirfoddol, rhan-amser yw'r rhain a gymerir ochr yn ochr ag astudiaethau'r Swyddogion. Mae'r swyddi'n cynnwys: Swyddog Gwrth-Hiliaeth, Swyddog Myfyrwyr Dieithriedig, Swyddog Iechyd Meddwl, Swyddog Moesegol ac Amgylcheddol, Swyddog Hygyrchedd, Swyddog LHDT+ (Swydd Agored), Swyddog LHDT+ (Swydd Traws), Swyddog Menywod, Swyddog Myfyrwyr Hŷn a Gofalwyr Myfyrwyr a Swyddog Rhieni.

## Undeb Myfyrwyr Caerdydd (UMC)

Sefydliad annibynnol o'r Brifysgol sy'n cynrychioli barn myfyrwyr Caerdydd. Mae'r Undeb yn cynnig gwasanaethau cynrychioli, gweithgareddau allgyrsiol, nosweithiau allan, tripiau dydd a chyflogaeth rhan-amser.

## Côd Ymarfer

Dogfen a grëwyd mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol sy'n amlinellu cyfrifoldebau a safonau gofynnol pawb sy'n ymwneud â hwyluso'r system Cynrychiolaeth Academaidd Myfyrwyr.

## Fforymau Colegau

Cyfarfodydd a drefnir gan Undeb y Myfyrwyr a fynychir gan Gadeiryddion PSM, cynrychiolwyr y Brifysgol a'r Undeb i siarad am bryderon ledled y coleg na ellir eu datrys ar lefel ysgol neu y mae angen eu dwyn i sylw y coleg.

## Swyddogion Sabothol

Dyma grŵp o saith myfyriwr sy'n cael eu hethol bob blwyddyn i gynrychioli barn Caerdydd myfyrwyr. Swyddi cyflogedig yw'r rhain ac mae yna saith gwahanol faes: Llywydd ac Is-lywyddion ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol, Ôl-raddedigion, Y Gymraeg, Campws Parc y Mynydd Bychan, Cymdeithasau a Gwirfoddoli, a Chwaraeon a Llywydd yr UA.

## Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr (PAPhM)

Mae gan y Brifysgol Pwyllgorau Addysg a Phrofiad Myfyrwyr ar sawl lefel, sydd â'r nod strategol o wella dysgu a darpariaeth addysg ar draws y Brifysgol. Mae 24 ESEC wedi'u seilio mewn ysgolion, sy'n cwrdd i drafod darpariaeth ysgolion unigol. Mae'r pwyllgorau ysgol yma'n adrodd yn ôl at ESECs colegau, sy'n edrych ar ddarpariaeth ar draws y coleg ehangach. Yn olaf, mae ESECs y colegau yn adrodd at ESEC y Brifysgol, sy'n edrych ar ddarpariaeth gyfunol ar draws yr holl bynciau. Gall ysgolion estyn allan at SARs i weld os hoffent ddarparu safbwynt myfyrwyr mewn cyfarfod ESEC ysgol, a gall Undeb y Myfyrwyr ddarparu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer hyn.

## Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr (CAR)

Myfyriwr gwirfoddol sy'n cynrychioli barn, eu carfan, ac sy'n bont rhwng staff a myfyrwyr.

## Cyngor i Fyfyrwyr

Gwasanaeth cyngor annibynnol yn Undeb y Myfyrwyr, sydd ar gael i holl fyfyrwyr Caerdydd. Mae'r tîm yn rhoi arweiniad ar faterion academaidd, cwynion gan ddefnyddwyr, tai a mwy.

## Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr (CCM)

Aelod o staff o'ch ysgol sy'n hwyluso recriwtio a sefydlu cynrychiolwyr myfyrwyr, yn darparu cymorth gweinyddol i gyfarfodydd ac yn gweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr i sicrhau cynrychiolaeth a chyfleoedd effeithiol i fyfyrwyr.

## Cyswllt Myfyrwyr

Gwasanaeth sy'n cael ei redeg gan y Brifysgol sydd wedi'i leoli yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr sy'n cynnig cronfeydd caledi, cyngor cyffredinol, cymorth rhyngwladol a gwasanaethau cwnsela.

## Panel Staff Myfyrwyr (PSM)

Cyfarfodydd sy'n dod â Chynrychiolwyr Academaidd y Brifysgol a staff yr Ysgol ynghyd i drafod materion sy'n effeithio ar boblogaeth y myfyrwyr ar lefel leol. Disgwylir i chi fynychu'r cyfarfodydd hyn fel rhan o'ch rôl.

## Tîm Llais y Myfyrwyr

Y tîm sy'n darparu eich hyfforddiant, cefnogaeth a sy'n rhoi cyngor sy'n benodol i'ch rôl. Gallwch gysylltu â'r tîm os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu gwynion ynghylch strwythur Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr.

***Oes gennych chi ragor o gwestiynau? Ewch i'n Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan yma: cardiffstudents.com/your-voice***




# Llwyddiannau Myfyrwyr

**Rydym wrth ein bodd yn clywed am y llwyddiannau a gawsoch yn ystod eich amser fel Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr! Rhannwch eich llwyddiannau gyda ni trwy gysylltu â**

**StudentReps@caerdydd.ac.uk**

# Cysylltu â'ch Swyddogion Sabothol



## Cynwal
### IL y Gymraeg

VPCymraeg@Cardiff.ac.uk

@VPCymraegCSU VPWelshLangCSU



## Hanan
### IL Myfyrwyr Rhyngwladol

VPInternationalStudents@cardiff.ac.uk

@IntOfficerCSU InternationalOfficerCSU



## Joshua
### IL Campws Parc y Mynydd

VPHeathPark@Cardiff.ac.uk

@VPHeathParkCSU VPHeathParkCSU



## Sean
### IL Myfyrwyr Ôl-raddedig

VPPostgraduate@Cardiff.ac.uk

@VPPostGradCSU PGradOfficerCSU